"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Ebrill, 2026**, yn Festri Capel Hebron, Llangwnnadl, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorwyr Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Efan Thmas, Iwan J. Williams,

115. **CYHOEDDIADAU'R IS-GADEIRYDDES**
Croesawodd y Gadeiryddes bawb i'r cyfarfod.

116. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
Datganodd y Clarc ddiddordeb yng nghais cofnod 118(a) isod - C26/0041/32/LL – ymestyn sied amaethyddol – Gwyndy, Pengroeslon.

117. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed MAWRTH, 2026**
Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod uchod.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys E. Williams gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi o'r cofnodion:

(1)Eitem 106 cymal (3)(3) – Goryrru ar allt Mellteyrn

Penderfynwyd anfon yn uniongyrchol at Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Cyngor Gwynedd, yn wyneb na fydd GanBwyll yn gallu dod i'r pentref am beth amser, i ofyn ar i Gyngor Gwynedd ymyrryd ar frys drwy roi arwyddion gwell a digonol i dynnu sylw modurwyr fod angen iddynt arafu yn wyneb y pryderon sydd gan drigolion ardal Sarn.

(2) Eitem 113 – Cyfeillion Llyn

Derbyniwyd e-bost gan Sian Parri fel a ganlyn:

"Ymhellach i'r cydweithio sydd wedi digwydd rhyngoch a Chyfeillion Llyn dros y tair mlynedd diwethaf a'n hymrwymiad i hyrwyddo hyfywedd y Gymraeg yn y tair cymuned, credaf y byddai'r gronfa yma yn fuddiol i fynd a'r gwaith ymlaen.

Mae hyn yn gyfle i ymestyn ac ehangu ar y cynllun peilot a gafodd ei gynnal yn Llangwnnadl yn ol yn 2012, pan ddaeth y gymuned ynghyd i wneud y Gymraeg yn fwy amlwg. Mae'r cais Croeso Cymraeg wedi ei gynnwys yn Cynllun Datblygu Ardal Ni, Cyngor Gwynedd, sydd o fantais i dderbyn yr arian o'r gronfa yma.

Efallai y gwyddoch fy mod i wedi cydlynu prosiectau celf ac yn gweithio fel artist. Fi hefyd oedd yn gyfrifol am y prosiect Croeso Cymraeg gwreiddiol yn Llangwnnadl.

Rwyf yn cynnig i chi fy mod i yn cydlynu prosiect ar draws y 3 ward i ddatblygu 'r cynllun Croeso Cymraeg a'r cydweithio sydd wedi cychwyn rhwng y tri cyngor yn barod, er mwyn gwneud y Gymraeg yn fwy gweledol amlwg. Fe welwyd y Croeso gafodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2023 a dyna'r enghraifft o croeso sydd yn bosib bob blwyddyn.

Mi ydw i wedi cael sgwrs am y posibilrwydd efo Alys, sydd yn gyfrifol am y gronfa ac roedd y syniad i'w weld yn cyd-fynd yn dda. Roedd yn gefnogol i'r prosiect fod ar y cyd rhwng y 3 cymuned.

Eglurais nad oeddwn eisiau creu gwaith ychwanegol i'r ysgrifenyddion ac mae'n ymddangos byddai, dyfynbris gen i fel yr artiast yn gyfrifol am yr holl gostau yn briodol. Ml faswn i hefyd yn gyfrifol am baratoi'r cais ac yn ei gyflwyno i chi roi sylwadau cyn ei gyflwyno.

Mi ydw i yn rhagweld y byddai yn golygu cydweithio efo'r tair ysgol gynradd ac mae gen i brofiad o wneud hynny efo naw ysgol yn Llyn ac Eifionydd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol drwy brosiect y Lle Celf

y nod oedd hyrwyddo'r Gymraeg a'i hanes ac mi aeth yn dda ond digwydd bod doedd yr un o'r tair ysgol yma wedi ei cynnwys.

Dyma linc i fwy o wybodaeth amdano

http://cyfeillionllyn.org/1/eisteddfod/#ysgol

Felly os nad ydych angen arian y gronfa at rywbeth arall a'ch bod yn awyddus i gydweithio efo mi, naill a'i yn unigol neu ar y cyd rhowch wybod ac mi wnaf gysylltu efo Alys i gychwyn ar gais i hyrwyddo'r Gymraeg a'i gwneud yn fwy gweledol amlwg yn yr ardal yma o arwyddocad ieithyddol."

Penderfynwyd cefnogi'r Cyfeillion.

118. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

(a) C26/0041/32/LL – ymestyn sied amaethyddol – Gwyndy, Pengroeslon.
(Datganodd y Clarc ddiddordeb yn y cais yma ac ymadawodd a'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).
(b) C25/0807/32/LL - newid defnydd cyn gapel yn dŷ annedd – Capel Salem, Sarn Mellteyrn.
(cynlluniau diwygiedig).

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

119. **AWDURDOD I DALU**

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:

Ad-dalu'r Clarc am adnewyddu trwydded Microsoft - £84.99 (siec 200895)
Un Llais Cymru - £206 (siec 200896)
Cwmni Yswiriant Zurich - £1,016.68 – (siec 200900)

120. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Cyflwynwyd ceisiadau am gyfraniadau ariannol – copi wedi ei anfon allan i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn:

Clwb Snwcer Sarn - £200 (siec 200897)
Cyfeillion Eglwys Llandegwnning - £125 (siec 200898)
Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Eryri - £50 (siec 200899)

121. **MATERION FFYRDD**

Ni ddaeth unrhyw fater i'w anfon ymlaen at y Peiriannydd Rhanbarthol yn y cyfarfod yma.

Cyflwynwyd e-bost gan Einir Wyn, Clarc Cyngor Cymuned Llanengan:

"Mynegwyd pryder am gyflwr llwybrau'r gymuned – a Phen Llŷn yn gyffredinol – o ganlyniad i'r troedio a wneir arnynt yn ystod yr amrywiol rasys cerdded/rhedeg a gynhaliwyd eisoes a'r rhai sydd i ddod (llawer mwy eleni o gymharu â'r llynedd), yn arbennig ar ôl y tywydd gwlyb a gafwyd dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r niferoedd yn

peryglu'r llwybrau ar gyfer y defnyddwyr nesaf – canslwyd ras dros y Sul er mwyn arbed y dirwedd ar gyfer y SheUltra ar Ebrill 11eg. Deallwyd, hefyd, y bu cryn broblemau ar ran mwdlyd iawn o'r llwybr yn ardal Anelog yn ystod y ras a gynhaliwyd ar ddechrau'r mis. Ategwyd hyn drwy ddweud y dylai'r trefnwyr, sy'n pocedu'r arian yn hytrach nag elusennau, dalu neu o leiaf gyfrannu at gynnal a chadw'r llwybrau ar gyfer cerddwyr eraill sydd am eu defnyddio. Yn naturiol, derbynnir yr elwa'r ardal o ran y cystadleuwyr a ddaw yma ond, rydym ni fel cynghorau yn ceisio cadw trefn ar y llwybrau trwy eu cynnal a'u cadw'n flynyddol.
Penderfynwyd ysgrifennu atoch chi i ofyn eich barn ac, yn naturiol, yr Adran Hawliau Tramwy."
Penderfynwyd ymateb i'r e-bost yn cefnogi y dylai'r Trefnwyr fod yn digolledu os oes difrod yn digwydd ar y diwrnod ac fod angen cysylltu â'r Adran Llwybrau.

122. **DATBLYGIAD TAI YM MOTWNNOG – POLISI GOSOD**
Cyflwynwyd er gwybodaeth ymateb Shnnon Morris Swyddog Achos ar ran Mabon ap Gwynfor AS fel a ganlyn:
"Diolch yn fawr am eich neges a'r manylion rydych wedi'u darparu ynghylch penderfyniad yr Arolygydd ar Gais Cynllunio Cae Capel, a'r pryderon y gall hyn eu hachosi i ddyfodol y Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedol yn y fro.Ymddiheurwn am yr oedi cyn ymateb.
Hoffwn gadarnhau bod y materion a godwch yn cyd-fynd gyda nifer o'r heriau ehangach mae Mabon ap Gwynfor AS wedi tynnu sylw atynt yn gyhoeddus dros y blynyddoedd, yn enwedig o ran pwysau ar gymunedau Cymraeg eu hiaith a'r effaith y gall polisïau cynllunio a thai ei chael ar allu cymunedau i gynnal eu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol. Mae'r problemau sy'n codi o bwysau ar y stoc dai, gan gynnwys symudiadau mewn poblogaeth a mynediad cyfyngedig at dai addas i bobl leol, wedi'u hamlygu ganddo fel ffactorau sy'n cyfrannu at wanhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol mewn rhai ardaloedd gwledig.
Yn ogystal, mae wedi amlygu'n gynharach fod y system Cynlluniau Datblygu Lleol (LDPau) yn aml yn methu â mynegi anghenion penodol cymunedau unigol, gan weithredu'n rhy aml fel fframwaith economaidd eang sy'n llai sensitif i realiti lleol. Mae ei sylwadau blaenorol yn nodi'r angen i sicrhau bod systemau cynllunio a thai yn ymateb i ofynion gwirioneddol cymunedau—gan gynnwys y cyd-destun ieithyddol—yn hytrach na dibynnu ar fesurau unffurf nad ydynt bob amser yn adlewyrchu'r sefyllfa ar lawr gwlad. Rydym yn cydnabod yn llawn y dystiolaeth a nodwch ynghylch y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, ac rydym yn deall y rhesymeg y tu ôl i'ch cais am ystyried Polisi Gosodiadau Lleol ffurfiol, ac yn benodol eich dymuniad i weld trefniadau cadarnach sy'n adlewyrchu'r angen i ddiogelu'r Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned. Mae'r pryderon hyn yn berthnasol iawn o fewn y drafodaeth genedlaethol ehangach ar gadw cymunedau Cymraeg eu hiaith a'r fframweithiau polisi sy'n llywio datblygu tai a thwf demograffig. Er nad yw Mabon yn y rôl o Lefarydd Tai mwyach, mae'n parhau i gadw diddordeb dwfn yn y materion hyn ac yn gwerthfawrogi'r trafodaethau lleol sy'n helpu i lywio newidiadau polisi yng Ngwynedd ac yn genedlaethol. Byddwn yn sicrhau bod eich sylwadau, eich cais, a'ch dogfen ategol yn cael eu cyflwyno'n briodol iddo ac yn cael sylw."

123. **Y GYLLIDEB DDIWEDDARAF**
Cyflwynwyd newyddion gan Un Llais Cymru am y gyllideb ddiweddaraf oedd ar gael a gofynnwyd i'r aelodau rannu'r wybodaeth. (Copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen).

124. **AIL AGOR CRONFA CEFNOGI CYNGHORAU 2026**

Nodwyd fod cronfa GwyneddNi ar agor unwaith yn rhagor.
Penderfynwyd trafod y posibilidau yn y cyfarfod ym mis Mai.

125. **CRONFA DATBLYGU DIGWYDDIADAU GWYNEDD 2026/27**

Derbyniwyd gwybodaeth fod y gronfa uchod ar agor:
"Rydym yn falch o gyhoeddi **Cronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd 2026/7 – Ar Agor**
Pwrpas y gronfa hon yw cefnogi trefnwyr digwyddiadau i gynnal digwyddiadau cynaliadwy sy'n creu bwrlwm yn ein cymunedau ac yn cefnogi egwyddorion yr economi ymweld er lles pobl, yr amgylchedd, iaith, a diwylliant Gwynedd.
Mae'r gronfa hwn yn cynnig cyfle i drefnwyr digwyddiadau sicrhau dyfodol eu digwyddiadau ac yn buddsoddi mewn arferion cynaliadwy i gefnogi eu datblygiad hirdymor.
Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu ar eu cyfraniad i gymunedau, iaith, diwylliant, yr economi, yn ogystal hystyriaeth i gynaliadwyedd amgylcheddol.
Gwybodaeth Allweddol:

- Agored i ddigwyddiadau a gynhelir yng Ngwynedd rhwng y cyntaf o Ebrill 2026 a 5ed o Fawrth 2027 .
- Cynigir grantiau hyd at £5,000 i gefnogi costau cyfalaf a refeniw.
- Ffurflen-Gais.-Cronfa-Datblygu-Digwyddiadau-2026.7-Cymraeg.pdf - Gwybodaeth ar gyfer trefnwyr digwyddiadau
- Dychwelwch ceisiadau wedi'u cwblhau i: digwyddiadau@gwynedd.llyw.cymru
- Dyddiad cau: 12pm, 15 Mai 2026

Am gyngor ar wneud cais, cysylltwch â Hannah Williams drwy digwyddiadau@gwynedd.llyw.cymru **cyn 20 Ebrill 2026.** Ni fydd Hannah Williams ar gael ar ôl y dyddiad hwn nes i'r gronfa gau, felly argymhellir cysylltiad cynnar."

Penderfynwyd rhannu'r wybodaeth mor eang ag sy'n bosibl.

125. **HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU**

Rhannwyd gwybodaeth am y cyrsiau a gynigir gan Un Llais Cymru yn ystod y cyfnod i ddiwedd mis Mehefin. Gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r Clarc os yn awyddus i ymuno ar unrhyw gwrs.

126. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

Nodwyd fod rhybudd wedi cyrraedd oddi wrth Archwilio Cymru fod archwiliad llawn o gyfrifon y Cyngor am 2025/26.
Penderfynwyd anfon at Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio, Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn holi a fyddai'n barod i wneud y gwaith archwilio mewnol i'r Cyngor.